OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1895

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002

## RHAN I

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 9 Awst 2002.

(2) Mae'r rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu awdurdod Parc Cenedlaethol;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw deuddeg mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "bwrdd" ("board") yw pwyllgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan reoliad 4(1)(a) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**1**);

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dyletswydd a eithrir" ("*excluded duty*") yw dyletswydd a gymeradwywyd y mae aelod o awdurdod sy'n gynghorydd yn cael cydnabyddiaeth mewn perthynas â hi heblaw o dan gynllun a wnaed o dan Ran II o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "dyletswydd a gymeradwywyd" ("*approved duty*") yw—

(a) presenoldeb mewn cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw bwyllgor yr awdurdod neu o unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor corff o'r fath;

(b) presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohono;

(**1**) O.S. 2001/2284 (Cy.173).
(**2**) 1972 p. 70.

(c) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan bwyllgor o'r awdurdod neu gan gyd-bwyllgor o'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill;

(ch) dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni os yw'r awdurdod yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth o fewn ystyr "*executive arrangements*" yn Rhan II o Ddeddf 2000;

(d) dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor;

(dd) dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth gan yr awdurdod sy'n galluogi neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio neu awdurdodi archwiliad o safle;

(e) presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddiant neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr awdurdod neu gan ei weithrediaeth neu ei fwrdd; ac

(h) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

ystyr "grŵp gwleidyddol arall" ("*other political group*") yw grŵp gwleidyddol heblaw grŵp rheoli neu grŵp gwrthbleidiol mwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw;

ystyr "grŵp gwrthbleidiol mwyaf" ("*largest opposition group*") yw grŵp gwleidyddol heblaw grŵp rheoli sydd â nifer fwy o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod;

ystyr "grŵp rheoli" ("*controlling group*") yw grŵp gwleidyddol:

(a) mewn awdurdod sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth:

  (i) pan fydd y trefniadau hynny'n cymryd ffurf arweinydd a gweithrediaeth gabinet;

  (ii) gyda maer a gweithrediaeth gabinet; neu

  (iii) gyda maer a rheolwr cyngor; neu

(b) mewn awdurdod sy'n gweithredu trefniadau amgen;

pan fydd unrhyw rai o'i aelodau yn ffurfio rhan o weithrediaeth neu fwrdd fel a geir yn (a) neu (b) uchod.

ystyr "gweithrediaeth" ("*executive*") yw gweithrediaeth awdurdod mewn ffurf a bennwyd yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000;

mae "pwyllgor" ("*committee*") yn cynnwys is-bwyllgor;

ystyr "pwyllgor trosolygu a chraffu" ("*overview and scrutiny committee*") yw pwyllgor yr awdurdod y mae ganddo'r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) neu 32 (1) o Ddeddf 2000;

ystyr "trefniadau amgen" ("*alternative arrangements*") yw trefniadau i gyflawni swyddogaethau awdurdod o'r math a ddisgrifir yn adran 32(1) o Ddeddf 2000; ac

mae i "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive arrangements*" gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.

**Awdurdodau perthnasol a ragnodwyd**

**3.** Rhagnodir cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1)(b) o Ddeddf 2000.